# DAVIES, ELLIS THOMAS (1822 - 1895), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** Ellis Thomas Davies
**Dyddiad geni:** 1822
**Dyddiad marw:** 1895
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd Mawrth 1822 yn y T  Mawr, Pennantlliw Bach, Llanuwchllyn, aelwyd enwog yn hanes Annibyniaeth y fro. Yr oedd ei dad yn ddiacon yn yr ' Hen Gapel ' a bu ' Ap Vychan ' yn ' hogyn cadw ' gydag ef am saith mlynedd, a chydnabu i ddylanwad yr aelwyd hon ei ddilyn ar hyd ei oes. Dechreuodd E. T. Davies bregethu tua 1842, yr un pryd â Michael D. Jones, mab gweinidog yr ' Hen Gapel,' Michael Jones, ac ef a hyfforddodd y ddau yn ei ysgol yn y Weirglodd Wen. I Goleg Aberhonddu yr aeth E. T. Davies. Yn 1847 cafodd alwad i eglwysi Llansantsior a Moelfro, ac urddwyd ef y flwyddyn ddilynol. Cyn hir cymerodd ofal eglwys Abergele ac yma y bu nes ymneilltuo yn 1887. Am flynyddoedd cadwai ysgol yn ei d  ar gyfer ymgeiswyr am y weinidogaeth. Cyhoeddodd lyfr o'i ganiadau a chyfieithodd lyfr G. B. Johnson, *Ein Hegwyddorion*. Bu'n ysgrifennydd cyfundeb Dinbych a Fflint. Yr oedd ' Scorpion,' a oedd yn gyd-fyfyriwr ag ef, ac yntau yn gyfeillion mawr. Bu farw 2 Ebrill 1895.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen**, (1890 - 1973)

## Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 424; iv, 53, 55

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 168, 171

*Album Aberhonddu ... o'r flwyddyn 1755 hyd 1880* (1898), 145

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733002

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu